# Dirprwy Weinidog yn ymweld ag Ynys Môn i gwrdd â thîm Pwysau Iach yng Nghymru

Yr wythnos hon bu Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Meddwl a Llesiant, mewn digwyddiad ym Miwmares i gwrdd â rhai o'r timau sydd wedi bod yn ymwneud â darparu cyfleoedd am weithgareddau am ddim i blant a'u teuluoedd.

Yr haf diwethaf, cynhaliodd tîm Pwysau Iach yng Nghymru sesiynau ymgynghori cyhoeddus i gael syniad o farn teuluoedd o'r rhesymau pam fod plant ar Ynys Môn dros bwysau iach. Roedd teuluoedd ar Ynys Môn yn credu bod diffyg sesiynau ymarfer corff am ddim a gweithgareddau i deuluoedd yn cyfrannu at nifer yr achosion o blant dros bwysau iach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae cynllun peilot Plant Iach Pwysau Iach Cymru ar Ynys Môn wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd a thimau hamdden MônActif i ddarparu cyfleoedd gweithgareddau am ddim i blant a theuluoedd.

Dywedodd Tomos Jones, Uwch Gydlynydd Prosiect ar gyfer Plant Iach Pwysau Iach yng Nghymru: "Mae'n fraint gallu cefnogi strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach Llywodraeth Cymru trwy'r gwaith treialu ar Ynys Môn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o bartneriaid, i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd gyrraedd a chynnal pwysau iach.

"Wrth symud ymlaen i'r ail flwyddyn, rydyn ni'n gobeithio gallu cefnogi mwy o deuluoedd ar yr ynys trwy ddarparu ymyriadau penodol a fydd yn cymryd agwedd gyfannol at fynd i'r afael â phwysau iach."

Mae hwn yn brosiect gwych a hoffem longyfarch y tîm ar eu cyflawniadau hyd yn hyn.



Chwaraeon

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**AM DDIM**
Agored i pawb
(Aelodau o'r urdd neu ddim)
**FREE**
Open to all

Urdd

# Diwrnodau Hwyl i'r Teulu
# Family Fun Days



**2yp - 4yp**

Sesiynau Actif Hwylus / Fun Active Sessions
Castell Neidio / Bouncy Castle
Ymweliad gan Mistar Urdd / Mr Urdd

**Llun / Monday - 20/2/23**
Canolfan Biwmares
(LL58 8AL)

**Mercher / Wednesday - 22/2/23**
Canolfan Hamdden Amlwch
(LL68 9TH)



**Gwener / Friday - 24/2/23**
Canolfan Hamdden Caergybi
(LL65 2YE)



Rhaid i un plentyn o'r teulu sydd yn mynychu fod rhwng 3-7 oed
One child must be aged between 3-7 from each family attending

**RHAID COFRESTRU**
Niferoedd cyfyngedig
**REGISTRATION ESSENTIAL**
Limited numbers

01248 565 884 | 07484 522 394 | rhoddalaw@urdd.org

bit.ly/GweithgareddTeuluUrddaBetsi

Ariannwyd gan:
Funded by:
GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
Chwaraeon
MÔN ACTIF